Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad yr Iaith Gymraeg 2022-23




Y cyd-destun deddfwriaethol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 152, 158 a 164, a bydd yn tynnu sylw at sut y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a osodwyd arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg ac wedi'u nodi yn yr Hysbysiadau Cydymffurfio priodol.

Hysbysiad Cydymffurfio Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hysbysiad Cydymffurfiaeth Archwilio Cymru.

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiaeth gyffredinol, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol gan y Safonau i'w chyhoeddi bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y cwynion yr ydym wedi'u derbyn, lefelau Cymraeg ein staff, yr hyfforddiant yr ydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, a lefel y Gymraeg sydd ei hangen arnom ar gyfer yr holl swyddi gwag a swyddi newydd yr ydym wedi'u hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Petai achos o gais yn dod i law am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r ymarfer y disgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon at Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

# Cynnwys

Cyflwyniad
Cyfathrebu safonau â staff
Strategaeth Iaith Gymraeg
Recriwtio
Sgiliau a hyfforddiant Cymraeg
Hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg
Llunio Polisi
Cwynion
Edrych tua'r dyfodol

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith a gafodd ei wneud i hyrwyddo'r iaith o fewn Archwilio Cymru yn ystod 2022-23 ac mae'n rhoi dealltwriaeth o'n sefyllfa bresennol. Er mai prif swyddogaeth yr adroddiad hwn yw asesu cydymffurfiaeth, mae'n rhoi cyfle i fyfyrio a chynllunio tua'r dyfodol.

2 Roedd penodi Swyddog yr Iaith Gymraeg ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn yn golygu bod cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu'r agenda, er bod y sefydliad wedi parhau i hyrwyddo'r iaith a'r cyfleoedd. Arweiniodd hyn at gyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu â staff, darparu hyfforddiant ac ymgysylltu â chleientiaid a rhanddeiliaid.

3 Datblygwyd a chytunwyd ar Strategaeth Iaith Gymraeg newydd drwy'r sianelau llywodraethu a rheoli priodol ac mae'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd drwy gyflwyno Cynllun Gweithredu, wedi'i symud ymlaen a'i roi ar waith drwy Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg.

4 Rydym wedi bod yn diwygio ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gymraeg gyda'r bwriad o'i gyflwyno ar draws y sefydliad i'r holl staff, rhai newydd a rhai sefydledig, gan ystyried hanes a diwylliant yr iaith yn ogystal â thynnu sylw at ein rhwymedigaethau statudol.

5 Gwnaeth llacio'r cyfyngiadau ar weithio mewn swyddfeydd a mynychu cynadleddau/seminarau ganiatáu i Archwilio Cymru ehangu ei raglen o ddigwyddiadau, gan gynnwys seminarau, gweithdai a chynadleddau wyneb yn wyneb mewn partneriaethau â rhanddeiliaid, partneriaid a sefydliadau perthnasol eraill.

6 Yn yr un modd â phob sefydliad, mae Archwilio Cymru yn parhau i addasu i ffyrdd newydd o weithio wrth barhau i ddarparu gwasanaethau archwilio i'n cleientiaid a'n rhanddeiliaid, gan sicrhau bod pawb yn parhau i fod mor ddiogel â phosibl. Gyda llacio'r cyfyngiadau, ond gan ddal i fod yn ymwybodol o effeithiau parhaol y pandemig, rydym yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid mewn ffyrdd newydd, myfyrio ar ein prosesau mewnol, ac addasu i ffyrdd newydd o weithio sydd i'w gweld yn debygol o barhau wrth i ni addasu i weithio hybrid. Wrth i ni ddatblygu

ffyrdd newydd o weithio, amgylchedd gwaith hybrid a chyfleoedd i weithio gyda staff a datblygu dulliau newydd o gefnogi dysgu a chreu mannau diogel i'r rhai sy'n dysgu'r iaith roi cynnig arni.

7 Mae Safonau'r Gymraeg yn parhau i ddarparu fframwaith i Archwilio Cymru weithio y tu mewn iddo ac i weithio tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050.

8 Cyhoeddir trefniadau cydymffurfio sy'n ymwneud â'r Safonau ar y wefan, ac mae Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio o fewn Archwilio Cymru ac yn gyfrifol am reoli'r safonau o ddydd i ddydd a hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid yn gyfrifol am y trosolwg strategol a'r materion llywodraethu corfforaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

9 Mae Archwilio Cymru yn parhau i fuddsoddi yn yr iaith Gymraeg, i gefnogi cydymffurfio mewnol â safonau, datblygu'r gweithlu ac i hwyluso cysylltiadau partneriaethau a chleientiaid. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd cadarnhaol a gyflawnwyd eleni, yn ogystal â nodi meysydd i'w datblygu yn barhaus.

## Adolygiad o'r flwyddyn ariannol– 2022/23

10 Wrth i ni ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ac addasu i ddulliau hybrid o ddarparu gwasanaethau archwilio a chymorth corfforaethol priodol, rydym hefyd yn ystyried y gwahanol ffyrdd yr ydym yn cydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg a sut y gallwn ni fynd y tu hwnt i gynyddu gwelededd a defnydd yr iaith ar draws Archwilio Cymru.

11 Cynhaliwyd amrywiaeth gyfyngedig o weithgareddau yn ystod hanner cyntaf 2022/23 oherwydd y sefyllfa barhaus gyda COVID a swydd wag Swyddog Iaith Gymraeg; fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau lacio ac i Swyddog Iaith Gymraeg gael ei benodi, cynhaliodd Archwilio Cymru weithgareddau busnes fel arfer yn unol â Safonau'r Gymraeg a chychwyn ar y broses o ddiwygio'r Strategaeth Iaith Gymraeg.

12 Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg wedi'i diwygio yn nodi ein safbwynt presennol, ein huchelgeisiau, a'r camau arfaethedig i wireddu'r uchelgeisiau hynny i fod yn sefydliad dwyieithog ac i fynd y tu hwnt i ofynion Safonau'r Gymraeg. Bydd cyflawni'r Strategaeth, fel y nodwyd yn flaenorol, drwy Grŵp Gweithredu sy'n cynnwys aelod allweddol o staff sy'n gyfrifol am gyflawni'r Canlyniadau a'r Mesurau yn y Strategaeth Iaith Gymraeg ddiweddaraf.

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

13 Mae effaith barhaus pandemig COVID-19 a chyflwyno trefniadau gweithio hybrid wedi parhau i ddod â newidiadau yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio, darparu hyfforddiant a rhwydweithio staff, ond rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog drwy gydol y cyfnod ac yn parhau i ystyried ffyrdd newydd o weithio.

14 Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith drwy sesiynau rhithwir i ddechreuwyr newydd, a chytunwyd ar y broses o ddiwygio'r cynnwys a'r dull cyflwyno. Mae'r Tîm Cyfathrebu ar hyn o bryd yn creu dau fideo byr a fydd yn cael eu cyflwyno ar draws amrywiaeth o lwyfannau, cyfarfodydd a seminarau i bob aelod o staff. Bydd un fideo yn ymdrin â hanes a diwylliant y Gymraeg a bydd y llall yn ystyried hanes deddfwriaeth y Gymraeg a beth mae hyn yn ei olygu i staff.

15 Bydd dechreuwyr newydd yn cael eu cynnwys drwy'r broses gynefino a bydd y sefydliad presennol yn cael eu cynnwys drwy amrywiaeth o gyfarfodydd

## Cyfathrebu safonau i staff

16 Mae cyfathrebu gofynion y safonau i staff yn bwysig, mae'n sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y safonau, er enghraifft wrth ateb galwadau ffôn allanol neu ohebiaeth.

17 Mae hefyd yn bwysig i lwyddiant y strategaeth Iaith Gymraeg a datblygiad y gweithlu eu bod yn deall y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael iddynt - gan gynnwys cyfleoedd dysgu, technoleg, a deunydd Adnoddau Dynol.

a. Mae dechreuwyr newydd yn cael sesiwn gynefino bwrpasol lle maent yn cael eu cyflwyno i'r safonau o ran â'u gwaith a'u cyflogaeth gyda ni. Mae hefyd yn ofynnol i ddechreuwyr newydd di-Gymraeg gwblhau cwrs Croeso Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg lle maent yn dysgu rywfaint o Gymraeg sylfaenol ar gyfer y gweithle ynghyd ag ymwybyddiaeth iaith
b. Mae nifer o adnoddau ac arweiniad ar y safonau, sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio, yn cael eu darparu i aelodau o staff. Mae hyn yn cynnwys templedi ar gyfer llofnodi e-byst, negeseuon "allan o'r swyddfa" a rhestr gynhwysfawr o deitlau swyddi
c. Mae cyfres o adnoddau technolegol Cymraeg hefyd ar gael i staff ar gais sy'n cynnwys 'Cysill' a 'Cysgeir', gwirydd sillafu Microsoft Office Cymraeg a 'To Bach.' Yn ddiweddar rydym wedi newid sut yr ydym yn darparu 'Cysill' a 'Cysgeir' i staff drwy ei gynnwys wrth baratoi gliniaduron newydd neu liniaduron wedi'u diwygio ar gyfer pob aelod o staff beth bynnag yw eu gofynion iaith

## Polisi Mewnol

18 Mae ein polisi o ran defnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlinellu'r safonau perthnasol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau pob dydd ein staff.

19 Mae'r rhain yn cynnwys ateb galwadau ffôn ac ymateb i ohebiaeth, parchu dewisiadau iaith ein cyrff archwiliedig ac aelodau'r cyhoedd, a'r ystyriaethau ar gyfer arddangos posteri ac arwyddion o amgylch ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu bod yn rhaid i unrhyw e-byst at bob aelod o staff fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg wedi'u lleoli fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf.

20 Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r hawliau sydd gan staff o dan y safonau megis cyfleoedd i fanteisio ar dechnolegau Cymraeg, eu mynediad at hyfforddiant Cymraeg, a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn tynnu sylw at eu hawliau i gael dogfennau Adnoddau Dynol, yn ogystal â chyfarfodydd disgyblu a chwyno, yn Gymraeg.

## Strategaeth Iaith Gymraeg

21 Mae Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 – 2027 wedi'i chymeradwyo a'i chefnogi drwy amrywiaeth o strwythurau prosesau llywodraethu a rheoli mewnol yn Archwilio Cymru.

22 Er nad oes gofyniad ar Archwilio Cymru i ddatblygu Strategaeth Iaith Gymraeg o dan y safonau, teimlir bod hyn yn ffordd effeithiol o ddangos ein hymrwymiad, a sicrhau ein bod yn mynd ymhellach na chydymffurfio yn unig.

23 Bydd Grŵp Gweithredu'r Strategaeth Iaith Gymraeg yn cael ei sefydlu i helpu i hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau bod cynllun gweithredu'n cael ei gyflawni. Mae'r grŵp yn gynrychioliadol o'r sefydliad ac yn cynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol a all lywio penderfyniadau; gan gyfarfod yn rheolaidd bydd y grŵp yn adolygu'r broses o gyflawni canlyniadau a mesurau o'r Strategaeth.

24 Mae'r Safonau'n rhoi llinell sylfaen a fframwaith ac mae'r Strategaeth yn ysgogi perfformiad ac ymrwymiad y tu hwnt i hynny i gryfhau cydymffurfiaeth. Mae'n rhoi canolbwynt ac ysgogiad i'r sefydliad gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau, gyda sawl ysgogydd a blaenoriaeth yn llywio'r Strategaeth a'r ddarpariaeth o flaenoriaethau'r Gymraeg i gleientiaid, rhanddeiliaid ac aelodau staff; gan gynnwys pedwar maes datblygu allweddol – recriwtio; hyfforddiant; cyfleoedd; a gwybodaeth.

25 Ffactor o bwys wrth gyflawni'r Strategaeth fydd nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y sefydliad a lefelau cymhwysedd y siaradwyr Cymraeg; y diffyg cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a ble yn y sefydliad y mae ein siaradwyr Cymraeg yn gweithio i gyflawni a bodloni gofynion ein cleientiaid.

26 Parhaodd Archwilio Cymru i ystyried dulliau hyfforddi a chyfleoedd eraill i wella sgiliau staff, fodd bynnag, cafodd hyn ei effeithio arno a'i gyfyngu gan gyfyngiadau COVID parhaus a chyfarwyddeb gweithio o gartref.

## Recriwtio

27 Mae gennym ymrwymiad o fewn ein hymgyrchoedd recriwtio prentisiaid a graddedigion, y bydd o leiaf 20% o'n swyddi yn hanfodol o ran y Gymraeg. Gyda phob ymgyrch recriwtio arall, bydd gan unrhyw ymgyrchoedd sy'n recriwtio ar gyfer 3 swydd neu fwy o leiaf 20% o'r swyddi gwag yn hanfodol o ran y Gymraeg.

28 Dyma'r gofynion sylfaenol ar gyfer y recriwtio hyn ac mae'r swyddi yn dal i fod yn amodol ar asesiadau sgiliau iaith Gymraeg a all gynyddu'r gofynion.

## Sgiliau a hyfforddiant Cymraeg

29 Mae sgiliau Cymraeg ein staff yn cael eu hunanwerthuso a'u cofnodi ar borth Hunanwasanaeth y Cyflogai. Tua diwedd pob blwyddyn ariannol, rydym yn annog pob aelod o staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ac i baru eu hunain â'r Matrics Sgiliau Cymraeg, sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith ALTE.

30 Dyma sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23:

**Tabl 2: Sgiliau Cymraeg pob aelod o staff Archwilio Cymru**

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 114 | 122 | 119 | 122 |
| 1 – Mynediad | 14 | 8 | 8 | 10 |
| 2 – Sylfaen | 7 | 3 | 4 | 3 |
| 3 – Canolradd | 6 | 7 | 8 | 8 |
| 4 – Uwch | 8 | 12 | 2 | 6 |
| 5 – Hyfedredd | 20 | 16 | 23 | 20 |
| **Cyfanswm** | 169 | 168 | 164 | 169 |

31 Rydym hefyd yn dangos nifer y sgiliau Cymraeg wedi'u dosbarthu yn y sefydliad o ran gwasanaethau archwilio a gwasanaethau corfforaethol yn **Nhablau 3 a 4 yn y drefn honno.**

**Tabl 3: Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru yn ein gwasanaethau archwilio**

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 95 | 100 | 97 | 101 |
| 1 – Mynediad | 11 | 7 | 6 | 7 |
| 2 – Sylfaen | 4 | 1 | 3 | 3 |
| 3 – Canolradd | 5 | 6 | 7 | 7 |
| 4 – Uwch | 8 | 12 | 2 | 6 |
| 5 – Hyfedredd | 18 | 14 | 21 | 18 |
| **Cyfanswm** | 141 | 140 | 136 | 142 |

**Tabl 4: Sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru yn ein gwasanaethau corfforaethol**

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 19 | 22 | 22 | 21 |
| 1 – Mynediad | 3 | 1 | 2 | 3 |
| 2 – Sylfaen | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 3 – Canolradd | 1 | 1 | 1 | 1 |
| 4 – Uwch | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 5 – Hyfedredd | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | 28 | 28 | 28 | 27 |

# Hyfforddiant

## Hyfforddiant sgiliau Cymraeg

32 Yn ystod 2022-23, cymerodd aelodau o staff ran yn y cyrsiau fel sydd i'w weld yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Hyfforddiant Cymraeg**

| Cwrs | Cynrychiolwyr | Wedi’u cwblhau | Ar y gweill |
|---|---|---|---|
| Cymraeg Gwaith Cyrsiau ‘Croeso’ ar-lein Rhan 1 | 16 | 8 | 8 |
| Cymraeg Gwaith Cyrsiau ‘Croeso’ ar-lein Rhan 2 | 9 | 4 | 5 |
| Cymraeg Gwaith Cyrsiau ‘Gwella’ ar-lein Rhan 1 | 5 | 3 | 2 |
| Cymraeg Gwaith Cyrsiau ‘Gwella’ ar-lein Rhan 2 | 3 | 1 | 2 |

## Hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

33 Cafodd dau gwrs eu cynnig yn ddwyieithog yn ystod 2022 –23, gweminar Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gweminar e-ddysgu Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Roedd yr hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn galluogi staff i ddewis rhwng cyfres o sesiynau cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Darparwyd yr hyfforddiant Iechyd a Diogelwch yn awtomatig naill ai yn y Gymraeg neu’r Saesneg yn ôl y dewis iaith.

34 Mae’r Swyddog Iaith Gymraeg newydd wedi helpu i nodi a hwyluso darparwyr hyfforddiant i ddiwygio’r hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys dewis cyfrwng Cymraeg.

# Llunio Polisi

35 Rydym wedi cwblhau asesiadau effaith iaith Gymraeg o ran 7 polisi a phenderfyniadau polisi rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae angen yr asesiadau effaith hyn ar gyfer pob polisi newydd a pholisïau wedi’u hadolygu er

mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Tabl 6: Polisïau a phenderfyniadau polisi**

| Polisi |
| --- |
| Ailstrwythuro Gwasanaethau Busnes |
| Polisi Rheoli Gweithredu Diwydiannol |
| Inflo – Polisi cydweithio /ymarfer |
| Ein Prosiect Gweithleoedd y Dyfodol – Cyfnod Dylunio |
| Polisi Recriwtio a Dethol |
| Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch – hyfforddiant ar-lein |
| Polisi Absenoldeb Anabledd |

# Cwynion

36 Ni chawsom unrhyw gwynion yn ystod 2022-23.

# Edrych tua'r dyfodol

37 Bydd penodi Swyddog Iaith Gymraeg yn ystod 2022/2023 yn rhoi cyfle i ddefnyddio'r sylfaen bresennol i ddatblygu a gwneud cynnydd o ran agenda'r Gymraeg yn Archwilio Cymru.

38 Mae'n bwysig edrych tua'r dyfodol ac ystyried yr hyn y byddai modd ei gyflawni o bosibl, a bydd yn disgwyl gosod y camau a thargedau heriol nesaf a fydd yn ysgogi'r agenda tymor byr, tymor canolig a hirdymor yn Archwilio Cymru.

39 Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Datblygu a gweithredu cynllun Datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg er mwyn
  - Cychwyn Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg

    - Adolygu darpariaeth hyfforddiant ac ymgynghori â staff ar y nifer isel sy'n manteisio arno / sydd â diddordeb
    - Datblygu a gwreiddio Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg ar draws swyddogaethau Adnoddau Dynol i annog defnydd yr iaith
    - Datblygu amrywiaeth o fannau diogel i ddysgwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Arfer Da i drafod cyfleoedd cydweithredol gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi'r archwiliad staff
- Datblygu a chyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Arfer Da i ddatblygu a chyflwyno digwyddiadau sy'n wybodus o'r Gymraeg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall

Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.